

Dofednod Iard Gefn – Arweiniad i gadw ychydig o ieir gartref...

Mae cadw ychydig o ieir yn yr ardd gefn i gyflenwi wyau drwy'r flwyddyn yn dod yn fwy a mwy poblogaidd. Am y rheswm yma rydym wedi rhoi'r wybodaeth sylfaenol iawn yma at ei gilydd fel arweiniad i'r rheini sy'n mynd ati i'w cadw.

'Does yr un gyfraith i'ch atal rhag cadw ieir, ar yr amod eich bod yn gofalu amdanynt yn iawn a'ch bod yn cymryd eu lles o ddifrif. Er hynny, mae'n ddoeth edrych gweithredoedd eich eiddo neu gael gair â'ch landlord i wneud yn siŵr nad oes dim cyfamodau yn atal cadw 'da byw'.

Byddai'n ddoeth cysylltu â'r Adran Gynllunio (01824) 706727 neu cynllunio@sirddinbych.gov.uk petaech yn meddwl am gadw ieir. Efallai na fydd cadw ieir yn anffurfiol ar eiddo preswyl at ddefnydd personol ag angen caniatâd cynllunio. Serch hynny, fe allai eu cadw'n fwy dwys a/neu weithgaredd masnachol arwain at newid defnydd petai cymeriad preswyl yr eiddo yn newid yn arwyddocaol. Fe all unrhyw adeiladau sydd eu hangen i gadw'r ieir fod ag angen caniatâd cynllunio hefyd pa un a ydynt yn eich gardd neu'n rhywle arall.

Mae angen ichi ystyried hefyd a ellwch chi roi gofal 365 diwrnod y flwyddyn i'ch ieir – ac a ellwch chi wneud trefniadau digonol ar gyfer pryd fyddwch chi ar wyliau ayyb?

Faint ydych chi am eu cadw?

Bydd hyn yn dibynnu yn ôl pob tebyg ar faint o wyau sydd arnoch eu heisiau. Fel arfer gall iâr ddodwy tua 250 o wyau y flwyddyn. Bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar frîd yr ieir yn ogystal â'u hiechyd a pha mor dda y cânt eu bwydo.

A oes angen imi gofrestru fy 'haid'?

Os ydych yn ystyried cadw dwy neu dair iâr i ddarparu cyflenwad o wyau ffres gydol y flwyddyn yna 'does dim gofynion i gofrestru ag unrhyw un. Er hynny, byddem yn ei werthfawrogi petaech yn cofrestru â ni yn wirfoddol gan y bydd hyn yn help os digwydd i glefyd dorri allan. Cysylltwch â ni i gofrestru eich dofednod os gwelwch yn dda. Nid yw'n golygu unrhyw gost ac ni fyddir yn cysylltu â chi.

Os ydych yn cadw 50 neu fwy o ieir

Rhaid ichi, drwy gyfraith, gofrestru â'r cofrestr dofednod y DU â weinyddwyd gan [Defra](#) os ydych yn berchen ar, neu'ch bod yn gyfrifol am safleoedd dofednod gyda 50 neu fwy o adar. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol hefyd hyd yn oed os yw'r safle ond wedi'i stocio â 50 neu fwy o adar am ran o'r flwyddyn. Ar hyn o bryd, nid oes angen i safleoedd gyda llai na 50 o adar gofrestru, ond mae Defra yn annog rhai sy'n cadw ieir i wneud hynny'n wirfoddol.

Ble gallaf eu cadw?

Byddai cwt ieir neu gysgodfan fechan 4 troedfedd wrth 3 troedfedd â lle i uchafswm o 12 iâr (h.y. 1 troedfedd sgwâr yr iâr). Cofiwch y bydd bridiau mwy ag angen mwy o le. Dylech ddarparu rhywfaint o le i'ch ieir yn yr awyr agored ond, os ydych yn hoff o'ch gardd, mae'n well ei ffensiio. Mae hyn oherwydd bod ieir wrth eu bodd yn crafu i ddod o hyd i hadau, pryfetach, gwllithod ac yn y blaen. Yn anffodus maent yn hoff o fwyta unrhyw beth glas hefyd ac, wrth wneud hynny, fe wnânt godi planhigion bychain o'u gwraidd a chreu baddonau llwch. Mae angen ichi gadw eich ieir yn ddiogel rhag llwynogod a chathod hefyd. Cofiwch - mae yna llwynogod mewn tref yn ogystal ag yn y wlad.

Beth allaf ei fwydo i'm hieir?

Mae bwyd ieir a gynhyrchir yn fasnachol ar gael yn rhwydd o nifer o fannau, megis masnachwyr amaethyddol, siopau anifeiliaid anwes, rhai canolfannau garddio yn ogystal â chynhyrchwyr a chyfanwerthwyr porthiant mwy.

NODYN PWYSIG: Bu bwydo gwastraff arlwygo i unrhyw anifeiliaid neu adar sy'n cynhyrchu bwyd yn anghyfreithlon ers 2001. Mae gwastraff arlwygo'n cael ei ddiffinio yn ôl y gyfraith fel pob bwyd gwastraff, pa un ai'n amrwd neu wedi'i goginio, yn cynnwys olewau coginio a ddefnyddiwyd, sydd i'w cael mewn llefydd megis ceginau cartrefi, bwytai, siopau pysgod a sglodion / pítsa / cebab, siopau prydau parod, cantinau a chaffis, ceginau a bwytai llysiuol.

Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstey, Rhuthun.
LL15 1YN.
Rhif ffôn: (01824) 706086 / 706189 Ffacs: (01824) 706051

Ebost: iechydanifeiliaid@sirddinbych.gov.uk



Glanweithdra

Gall bwyd a dŵr sy'n cael ei adael allan ar gyfer dofednod ddenu fermin megis llygod mawr a llygod bach. Gall cytiau ieir roi lloches i lygod mawr a llygod bach hefyd.

I atal i hyn ddigwydd, gwnewch o'n rhan o'ch trefn reolaidd i lanhau'r cysgodfeydd, cael gwared ar fwyd sydd heb ei fwyta ac, os yn bosibl, symud y gysgodfa / libart i le newydd.

Yn yr haf gall dofednod sy'n cael eu cadw'n wael arwain at ogleuon annymunol, sy'n gall denu pryfed. Gall y rhain fynd yn niwsans i chi a'ch cymdogion a gall arwain at ymweliad gan Swyddog Iechyd yr Amgylchedd y cyngor os derbynnir cwyn.

Problemau sŵn

Mae ieir yn eithaf tawel fel arfer, ond mae ceiliogod yn unrhyw beth ond hynny!

Os byddwch chi'n penderfynu cadw ceiliog rydych yn mentro'r perygl o greu niwsans sŵn a all arwain at ymweliad gan swyddogion sŵn y Cyngor os derbynnir cwyn!

Cofiwch - **nid oes angen** ceiliog er mwyn i'ch ieir ddodwy wyau.

Cysylltwch â'r Isadran Llygredd ar (01824) 706083 / 706080 neu iechydyramgylchedd@sirddinbych.gov.uk i drafod problemau sŵn a niwsans.

Beth ydych am ei wneud gydag unrhyw wyau sydd dros ben?

Petaech yn penderfynu gwerthu eich wyau i'ch cyfeillion neu'ch teulu, dros y giât neu ar stondin marchnad yna mae rhai pethau y mae angen ichi eu gwybod.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith cofrestru fel busnes bwyd gyda'n Tîm Bwyd a Diogelwch yn Iechyd yr Amgylchedd.

I gofrestru cysylltwch â'r Tîm Bwyd a Diogelwch ar **01824 706305** neu iechydyramgylchedd@sirddinbych.gov.uk
Cofiwch os ydych yn rhedeg busnes, fe allech fod ag angen caniatâd cynllunio hefyd i newid defnydd eich eiddo.

Lles eich dofednod

Dan y Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 mae hi yn erbyn y gyfraith bod yn greulon wrth anifail (yn cynnwys adar) a rhaid ichi ofalu bod eu hanghenion lles yn cael eu cwrdd.

Mae'r rhain yn cynnwys yr angen:

- am amgylchedd addas (lle i fyw)
- am ymborth addas
- i ddangos patrymau ymddygiad arferol
- i gael eu cadw gyda, neu ar wahân i anifeiliaid neu adar eraill (fel y bo'n briodol)
- i gael eu diogelu rhag poen, anaf, dioddefaint, gofid a chlefyd.

Mae Cynulliad Cymru a Defra yn cynhyrchu codau lles ar gyfer dofednod (mae statws cyfreithiol i'r rhain a rhaid cadw atynt). Gellir lawrlwytho'r llyfrynnau canlynol o'u gwefan:-

- [Lles ieir dodwy \(www.wales.gov.uk\)](http://www.wales.gov.uk)
- [Cywion cig a chywion magu \(www.defra.gov.uk\)](http://www.defra.gov.uk)

Yn amlwg, mae'r llyfrynnau hyn wedi'u hanelu at fusnesau sy'n cadw dofednod ar lefel fasnachol fawr. Er hynny, maent yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i dyddynwyr hefyd.

Ystyried clefydau

Mae dofednod yn agored i lawer o glefydau ac maent ag angen archwiliadau rheolaidd. Un clefyd o'r fath yw ffliw adar, sy'n glefyd feirol andros o heintus sy'n effeithio ar system anadlol, treuliol a/neu nerfol llawer o rywogaethau o adar.

Mae'n **glefyd hysbysadwy** a RHAID hysbysu achosion amheus i'r Awdurdod Lleol (01824) 706086/706189 neu Iechyd Anifeiliaid (01826) 674144.